Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Manod

**Blaenau Ffestiniog**
**Gwynedd**
**LL41 3AF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Y Manod

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Manod |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 109 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 82 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 14 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 13.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 25.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 81.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/02/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/05/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Un o rinweddau nodedig Ysgol Y Manod yw'r ymdeimlad gofalgar a chartrefol sy'n bodoli ynddi. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu ethos parchus a chynhwysol. Maent yn barod i wrando ar bryderon y disgyblion ac ymateb yn briodol iddynt bob tro.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r rhai sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn magu hyder i gyfathrebu'n gyflym ac yn gwneud cynnydd cadarn gyda'r iaith. Mae staff yn darparu amrediad cyfoethog o brofiadau dysgu sy'n ysbrydoli ac ehangu gorwelion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r disgyblion yn dangos gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol ynghyd â balchder yn eu hysgol. Mae naws Gymreig amlwg yn bodoli yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth mewn gofal yn darparu arweinyddiaeth ofalgar a phwrpasol. Caiff ei gynorthwyo'n gadarn gan staff a chorff llywodraethol deallus sydd â throsolwg glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae blaenoriaethau'r ysgol, ar y cyfan, yn deillio o adnabyddiaeth addas arweinwyr o'u hysgol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau gwerthuso, cynllunio a gweithredu ar gyfer gwelliant yn ddigon clir a phenodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau yn gadarn ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a'i ddathlu'n ddeniadol o gwmpas yr ysgol. Er hyn, cyfyng yw'r cynnydd ym medrau darllen disgyblion. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i gywain gwybodaeth o wahanol destunau ac ar eu mwynhad o ddarllen. Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o gynnydd pob disgybl. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yn annibynnol er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Drwyddi draw, yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r disgyblion yn ymroddgar ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn barod i drafod eu barn yn aeddfed gyda'u cyfoedion a chyfrannu eu syniadau'n llwyddiannus. Er hyn, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd digon cyson i gymryd rhan flaenllaw i gyfrannu at fywyd a gwaith ehangach yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r prosesau gwerthuso, cynllunio a gweithredu i ymateb yn fwy penodol ac amserol i feysydd yr ysgol i'w gwella

A2 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth athrawon yn annibynnol er mwyn gwella ansawdd eu gwaith a gwneud dewisiadau am sut i gyflwyno eu dysgu

A3 Datblygu medrau darllen disgyblion

A4 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth ddechrau’r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion Ysgol Y Manod fedrau sy’n briodol i’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran a’u cam datblygu. Wrth i ddisgyblion aeddfedu, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Maent yn cymhwyso eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o wahanol feysydd yn fwriadus i gyd-destunau newydd ar draws y cwricwlwm. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn addas ac yn defnyddio geirfa sy’n benodol yn y Gymraeg ar gyfer gwahanol feysydd y cwricwlwm yn briodol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn cyfathrebu’n hyderus yn y Gymraeg gan ddefnyddio geiriau cyfarwydd yn gywir. Maent yn frwdfrydig wrth drafod gwahanol themâu yn yr ardaloedd dysgu ac wrth sgwrsio am eu profiadau a’u diddordebau. Er enghraifft, maent yn addasu geirfa a goslef llais yn bwrpasol wrth chwarae rôl yn y siop wrth werthu llysiau. Mae’r disgyblion hynaf yn ymateb yn dda i gwestiynau gan eu hathrawon ac yn cyfrannu’n gynhyrchiol at drafodaethau. Mae lleiafrif y disgyblion yn egluro ac ymestyn eu hymatebion yn effeithiol ac yn mynegi eu barn yn dda yn y ddwy iaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn aeddfed, gan ddefnyddio geirfa eang a choeth. Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg.

Mae mwyafrif y disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio strategaethau ffoneg yn gynyddol effeithiol i adeiladu geiriau syml, er enghraifft wrth ddarllen a dehongli gwybodaeth i drefnu stori’r Lindysyn Llwglyd Iawn. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn defnyddio ystod dda o strategaethau fel llithr ddarllen yn llwyddiannus yn y ddwy iaith i ganfod gwybodaeth o destunau amrywiol. Maent yn dadansoddi testunau’n ofalus i baratoi ar gyfer gweithgareddau ysgrifennu estynedig. Er enghraifft, mae mwyafrif disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn dehongli testunau am fywyd plentyn yn y chwarel gan adnabod nodweddion arddull i ysgrifennu portread dychmygol yn effeithiol. Mae llawer o’r disgyblion hynaf yn darllen ar goedd yn ddeallus a gyda mynegiant addas yn y ddwy iaith. Er hynny, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn ddigon cadarn.

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus gan gyflwyno darnau ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac at wahanol ddibenion. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu i safon dda yn y Gymraeg a’r Saesneg. Maent yn creu darnau estynedig ffeithiol a dychmygus, er enghraifft wrth ysgrifennu sgript sy’n trafod

agweddau fel boddi Capel Celyn yn llwyddiannus. Wrth i fedrau'r disgyblion ddatblygu, maent yn defnyddio ystod dda o atalnodi ac yn sillafu geiriau mwy cymhleth yn gynyddol gywir.

Ar draws yr ysgol, mae medrau rhif, siâp a thrin data y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cymhwyso eu medrau i fesur cynhwysedd hylifau yn dda, er enghraifft wrth gynllunio a chreu diodydd iachus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn cymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau diddorol sy'n cynnwys dadansoddi graffiau am lygredd y môr i ddeall effaith gwastraff plastig ar yr amgylchedd. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o ddulliau yn dda i ddatrys problemau bywyd go iawn. Er enghraifft, maent yn ymhelaethu ar eu dulliau meddwl a'u rhesymu yn fedrus wrth gymharu màs corff chwaraewyr rygbi Cymru gan egluro sut y gallai hyn ddangos braster uchel.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn addas. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teganau rhaglenadwy yn hyderus i reoli a mewnbynnu cyfarwyddiadau i ddod o hyd i lysiau, er enghraifft. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn creu cyflwyniadau'n fedrus, er enghraifft wrth gynnwys troslais i'w sgriptiau. Mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn creu ac yn defnyddio cronfeydd data yn briodol mewn amrywiaeth ysgogol o destunau dysgu. Er enghraifft, maent yn mireinio'u medrau i ddewis a dethol data wrth ddarganfod gwahanol ddulliau o deithio heibio Parc Manod.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau'n ddychmygus wrth efelychu darn o gelf enwog gan arlunydd o'r Eidal. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn gweithio gyda gwahanol ddeunyddiau i greu delweddau sy'n dathlu atyniadau lleol Blaenau Ffestiniog yn fedrus.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn teimlo'n hapus o fewn ei hamgylchedd gynhwysol a gofalgar. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ar eu pryderon ac yn eu cynorthwyo'n briodol. Maent yn dangos balchder amlwg at eu hysgol ac yn gwerthfawrogi'r profiadau amrywiol sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos cwrteisi, gofal a pharch amlwg at ei gilydd a staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu teimladau'n hyderus ac yn fodlon rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt. Maent yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o sut i gefnogi eu lles eu hunain. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn nodi sut maent yn teimlo yn y bore ac mae staff yn ymateb yn ddeallus i unrhyw bryderon neu anghenion sydd ganddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a gwybodus drwy ddangos ymwybyddiaeth gadarn o beth yw bod yn ffrind da, sy'n cyfrannu'n werthfawr at feithrin ethos teuluol yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel, gan gynnwys cadw'n ddiogel ar-lein. Maent yn cymhwyso hyn yn effeithiol wrth gyflawni eu gweithgareddau dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae gan fwyafrif y disgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac maent yn datblygu i fod yn ddisgyblion mentrus sy'n barod i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf yn dwyn ffeithiau a gwybodaeth am ddysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus. Wrth ddysgu, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos hyder a gwydnwch ac yn dyfalbarhau â'u gwaith. Maent yn ymroi'n gydwybodol i'w gweithgareddau ac yn dyfalbarhau'n ddygn i'w cwblhau. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn canolbwyntio ar eu gweithgareddau am gyfnodau estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarn i gyfleoedd er mwyn dylanwadu ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu, er enghraifft wrth gynllunio themâu am anifeiliaid a chyd-destun gweithgareddau dysgu am y 1960au. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddiddordeb ac agweddau cadarnhaol iawn wrth ymgysylltu â'u dysgu. O oedran cynnar, mae disgyblion yn dewis tasgau'n effeithiol mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Wrth symud trwy'r ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn deall pa mor bwysig yw rhoi cynnig ar ddatrysiad eu hunain pan ddônt ar draws anawsterau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gyfarwyddyd staff a thaflenni parod i gyflawni eu tasgau, ac nid ydynt yn gwneud digon o benderfyniadau am sut i drefnu a chyflwyno'u gwaith. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu'n gynyddol annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu lles a'u ffitrwydd. Maent yn deall yr angen i gadw'n heini a bwyta'n iach, gan ddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynaliadwyedd a thyfu a defnyddio bwydydd a chynnyrch lleol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn plannu a chynaeafu llysiau yng ngardd yr ysgol ac yn gwerthu'r cynnyrch i'r gymuned leol.

Mae disgyblion yn cynrychioli eu cyfoedion yn briodol ar wahanol gynghorau fel y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Maent yn hybu amrywiaeth o weithgareddau i arbed egni ac ailgylchu o amgylch yr ysgol, er enghraifft wrth drefnu gwerthiant gwisg ysgol ail-law i rieni. Maent yn barod hefyd i ymgymryd â chyfrifoldebau a chwarae rhan ym mywyd a gwaith yr ysgol. Er hynny, nid yw disgyblion yn ymgymryd yn ddigon cyson â rolau arwain er mwyn cyfrannu'n gynyddol ragweithiol i fywyd a gwaith ehangach yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan bob aelod o staff berthynas waith hynod gadarnhaol â disgyblion. Maent yn trin y disgyblion yn gyfartal a pharchus sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at naws ofalgar a chynhwysol yr ysgol. Maent yn cydweithio'n ddiwyd fel aelodau effeithiol o dîm ac yn darparu ystod eang o weithgareddau a phrofiadau sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau dysgu a'u medrau cymdeithasol. Mae'r staff yn arddel ac yn defnyddio Cymraeg safonol sy'n annog disgyblion i gyfathrebu'n glir ac ymateb mewn iaith gynyddol gywir. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn darparu amrediad o brofiadau dysgu buddiol i ddisgyblion yn yr ardaloedd tu mewn a thu allan. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o brofiadau ymarferol a chreadigol sy'n datblygu eu medrau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth chwarae rôl yn Sied Ned.

Mae athrawon yn cydweithio'n dda o fewn yr ysgol a gyda staff ysgolion yr ardal i gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n briodol a chynhwysol i oedran a cham datblygu'r disgyblion, yn ogystal â chynllunio gweithgareddau dysgu i bontio i'r ysgol

uwchradd. Maent yn addasu'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol i ymateb i ddiddordebau ac anghenion dysgu'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu ystod addas o weithgareddau sy'n datblygu medrau llafar ac ysgrifennu, rhifedd a digidol y disgyblion yn fuddiol. Er hyn, nid yw athrawon yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau darllen yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn orddibynnol ar gefnogaeth athrawon wrth ddatblygu eu medrau darllen, sy'n cyfyngu eu dealltwriaeth o destunau a'u mwynhad o ddarllen.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol a phwrpasol sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiadau'r disgyblion yn effeithiol mewn cyd-destunau gwerthfawr. Mae egwyddorion y cwricwlwm yn datblygu'n briodol wrth feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a mentrus sydd yn rhan allweddol o weledigaeth yr ysgol. At ei gilydd, mae athrawon yn cyflwyno profiadau dysgu ysgogol ac yn cyflwyno gweithgareddau trwy gyflwyniadau diddorol a bywiog. Yn yr arferion gorau, maent yn annog disgyblion i feddwl, yn eu holi'n dreiddgar ac yn bachu diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion wrth ddarparu gweithgareddau o fewn themâu parod. Mae'r ysgol yn defnyddio teithiau ac ymweliadau i fannau diddorol yn llwyddiannus i gyfoethogi thema'r tymor, i ysbrydoli'r disgyblion ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, mae eu hymweliad ag amgueddfa yn Lerpwl yn atgyfnerthu dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion o gyfnod a cherddoriaeth y 1960au yn effeithiol. Maent hefyd yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol ac yn cael mewnbwn gwerthfawr gan rieni. Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau ac arferion eraill, er enghraifft wrth iddynt gymharu lleoliadau a llyfrau sanctaidd gwahanol grefyddau.

Ar draws yr ysgol, mae'r gweithgareddau dysgu yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol. Er hynny, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am sut maent yn dysgu yn ddigon effeithiol. Yn gyffredinol, mae staff yn gorarwain y dysgu, sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i wneud dewisiadau fwyfwy annibynnol am eu dysgu.

Mae'r staff yn defnyddio dulliau holi medrus yn effeithiol i ddatblygu medrau a dealltwriaeth y disgyblion. Maent yn cynnig adborth ysgrifenedig buddiol sy'n annog disgyblion i ystyried yr hyn maent yn ei wneud yn dda a sut i wella eu gwaith. Mae'r trafodaethau hyn yn bwrpasol ac yn gymorth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon yn gyson drwy'r ysgol, ac nid yw'r wybodaeth bob tro'n cael ei chyflwyno'n ddigon amserol i gefnogi disgyblion i fireinio a gwella cynnwys ac ansawdd eu gwaith yn ddigon annibynnol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a hapus sy'n hyrwyddo ymddygiad da a chwrteisi nodedig bron bob disgybl. Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau bod gwerthoedd, ynghyd â lles emosiynol disgyblion yn allweddol i'w dysgu. Trwy ddefnyddio amryw dechnegau gan staff, caiff disgyblion gyfleoedd pwrpasol i fynegi eu pryderon a'u parodrwydd i ddysgu yn ystod trafodaethau boreol. Mae staff yn meithrin a datblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol drwy gynnal gwasanaethau a gweithgareddau buddiol.

Mae trefniadau olrhain a monitro cynnydd disgyblion unigol a grwpiau yn briodol. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt trwy raglenni cymorth. Mae’r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Caiff hyn ei werthfawrogi gan ddisgyblion wrth iddynt fagu hyder i gymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau dysgu.

O dan arweiniad pwrpasol y cydlynydd ADY, mae cymorthyddion yn cefnogi’r disgyblion yn fedrus. Mae staff yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth werthfawr iddynt. Maent yn defnyddio ystod dda o raglenni a dulliau cefnogi i wella’u lles a datblygu eu medrau sylfaenol. Yn ystod y sesiynau lles, mae staff yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion drafod eu cryfderau er mwyn hybu eu hyder ac ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae staff yn cydweithio’n agos â’r disgyblion a’u teuluoedd ac yn cysylltu’n dda ag asiantaethau allanol arbenigol, lle bo’n briodol, i’w cynorthwyo. Wrth fonitro a gwerthuso’r ddarpariaeth yn briodol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn cydweithio’n effeithiol ag arbenigwyr i sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion sy’n ymwneud â ffurfio perthnasoedd diogel a byw yn iach. Mae cyfuniad o weithgareddau dysgu a sesiynau gan bartneriaid allweddol fel yr heddlu a'r nyrs ysgol, yn cefnogi agweddau diogelu a lles, ac yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb cyson disgyblion i’r ysgol.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i addysgu disgyblion am eu cynefin a’r byd ehangach. Mae staff yn helpu disgyblion i werthfawrogi materion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant, gwerthoedd a chydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd priodol iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cydwybodol ac egwyddorol. Mae staff yn cyflwyno ac atgyfnerthu gwerthoedd ysbrydol, moesol a chymdeithasol cadarnhaol i ddisgyblion yn gyson mewn gweithgareddau dysgu a sesiynau myfyrio ar y cyd. Mae hyn yn sicrhau bod agweddau moesol a chydraddoldeb yn treiddio’n effeithiol trwy bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu’r diwylliant cynhwysol sy’n bodoli o fewn ei chymuned yn dda.

Mae gan yr ysgol ystod dda o gyfleoedd sy’n helpu disgyblion i adnabod eu treftadaeth Gymreig. Er enghraifft, mae’r disgyblion hynaf yn mwynhau dysgu am hanes Hedd Wyn, ac am ddiwylliant ac etifeddiaeth ddylanwadol y chwareli yn eu cynefin. Trwy hyn, mae disgyblion yn falch o’u milltir sgwâr ac yn gwerthfawrogi hanes a thraddodiadau lleol a chenedlaethol Cymru.

Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddylanwadu’n briodol ar benderfyniadau trwy gymryd rhan yn y pwyllgor eco a chyngor yr ysgol. Mae’r trefniadau hyn yn sicrhau bod bob disgybl yn ei dro yn cael cyfle i fynegi barn a chynnig awgrymiadau ar sut i wella agweddau o’r ysgol. Maent yn trafod ystod berthnasol o faterion ac yn cyfrannu’n briodol at weithgareddau fel codi arian at wahanol elusennau. Er hyn, nid yw staff bob tro’n darparu cyfleoedd digon cyson ac uniongyrchol i gefnogi disgyblion i arwain a gweithredu’n rhagweithiol ar eu syniadau er mwyn dylanwadu ar fywyd a gwaith ehangach yr ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae artist lleol wedi ymweld â'r ysgol i addysgu'r disgyblion ieuengaf sut i wehyddu a phlygu helyg. O ganlyniad, mae'r disgyblion wedi creu lluniau deniadol sy'n adlewyrchu lliwiau a natur unigryw eu hardal leol. Mae'r gweithgareddau creadigol yn ennyn diddordeb disgyblion yn y cyfoeth celfyddydol gwerthfawr sy'n rhan annatod o'u hanes a'u diwylliant.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau. Er enghraifft, maent yn cael cyfleoedd buddiol i gystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon, perfformio mewn cyngherddau Nadolig a chystadlu mewn eisteddfodau lleol. Trwy hyn, mae disgyblion yn magu hunanhyder yn fuddiol ac yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol.

Mae'r pennaeth yn monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn gyson, gan gydweithio'n agos â rhieni ac asiantaethau allanol, fel y bo'r angen. Mae diwylliant ac ymagweddau priodol gan yr ysgol tuag at ddiogelwch a lles disgyblion ac mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth mewn gofal yn cynnig arweinyddiaeth gefnogol a chadarn i'r ysgol. Mae'n ymgymryd â'i rôl yn bwyllog ac yn llwyddo i atgyfnerthu a chryfhau egwyddorion yr ysgol yn effeithiol. Mae ganddo weledigaeth glir i greu ysgol gynhwysol lle mae disgyblion yn greiddiol i'w holl waith. Mae'n arwain drwy esiampl ac yn trin ei staff gyda gofal a pharch. Mae hyn yn cynnal ymdeimlad cryf o falchder ac ymddiriedaeth rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned glòs yr ysgol.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigeddau'r staff. Maent yn cydweithio'n effeithiol i gynnal ethos o waith tîm cynhyrchiol ymysg athrawon a chymorthyddion sy'n cefnogi lles a chyflawniad disgyblion yn llwyddiannus. Trwy drafodaethau staff rheolaidd, mae ganddynt ddealltwriaeth berthnasol o brif flaenoriaethau'r ysgol.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n bwrpasol i wella agweddau fel datblygu medrau llefaredd disgyblion. Maent yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnydd a chodi safonau disgyblion gan gyflwyno gweithgareddau sy'n cyfoethogi eu profiadau dysgu. Yn ogystal, maent yn hynod ystyriol o bwysigrwydd cynnal lles disgyblion a staff.

Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth berthnasol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Wrth ymgymryd â gweithgareddau monitro a gwerthuso addas o fewn amserlen gynhwysfawr, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro'n canolbwyntio'n ddigon miniog a strategol ar y meysydd i'w gwella. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn blaenoriaethu a gweithredu ar y prif feysydd i'w gwella yn ddigon penodol ac amserol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth dros dro a'r staff yn llwyddiannus. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn sicrhau eu bod yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i staff. Trwy ymweliadau a thrafodaethau rheolaidd i werthuso'r safonau a'r ddarpariaeth, mae ganddynt

ddealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n wybodus i drafodaethau ac i gyflawni eu rolau'n drwyadl. Maent yn cysylltu'r gwariant â blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn briodol ac yn gwneud defnydd buddiol o'r cyllid a grantiau i gyfoethogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion yr ysgol. Er enghraifft, mae'r grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gyflogi staff sy'n hybu'r dysgu ac yn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr berthynas agos a chynhyrchiol â rhieni ac maent yn sicrhau bod ganddynt brosesau cyfathrebu effeithiol â nhw er mwyn eu galluogi i godi unrhyw faterion a all effeithio ar les a dysgu eu plant. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni er mwyn dathlu llwyddiannau a rhannu negeseuon am wybodaeth allweddol disgyblion ar wahanol lwyfannau.

Mae gan yr ysgol ddulliau priodol i sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn cefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mewn trafodaeth â'u rheolwyr llinell, mae staff yn gosod amcanion pwrpasol i hyrwyddo gwelliant. Mae'r ysgol yn cynnig amrediad addas o gyfleoedd pwrpasol sy'n cefnogi staff i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd iddynt fynychu hyfforddiant i ddatblygu meysydd dysgu a phrofiad a chael cyfleoedd i gydweithio ag ysgolion eraill.

Mae arweinwyr yn talu sylw buddiol i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, maent yn cynllunio'n synhwyrol i ymateb i egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, gan gynnig profiadau lleol, cyfoes a chyffrous i ddisgyblion. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion ddathlu eu hunaniaeth a'u Cymreictod yn llwyddiannus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2024